# Cylchdaith y Llyn

Llechi Cymru Wales Slate


CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

**Cylchdaith y Llyn**
Tuag 8km
Caniatewch 2.5 awr

Cylchdaith y Llyn | Lake Walk

Llwybrau Eraill | Other Footpaths

Ffin y Parc | Park Boundary




## Gwybodaeth hanfodol

Rydym yn awyddus i chi fwynhau'ch ymweliad â Pharc Gwledig Padarn ond cofiwch y gall rhai rhannau o'r Parc fod yn beryglus ac y dylid cadw llygad ar blant trwy'r amser.

- Cadwch at y llwybrau sydd ag arwyddion cyfeirio yn unig
- Peidiwch â mynd i mewn i adfeilion adeiladau
- Cadwch draw o hen adeiladweithiau'r chwarel
- Mae rhai o'r llwybrau'n anwastad a rhai ar ymyl dibyn serth
- Mae hen weithfeydd y chwarel, llwybrau serth trwy'r coed a dyfroedd dwfn yn y Parc

**1** Cychwynnwch o Man Gwybodaeth Parc Gwledig Padarn yn y *Gilfach Ddu*. Cerddwch heibio i du blaen y Gweithdai Crefftau i gyfeiriad y toiledau a chwilio am yr arwyddion cyfeirio gwyn. Dilynwch y rhain ar draws y maes parcio ac ewch i fyny i gyfeiriad Ysbyty'r Chwarel.

**2** Mae *Llyn Padarn* yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd pwysigrwydd y bywyd gwyllt a'r ddaeareg yno. Mae'n un o ddim ond tri chynefin naturiol yng Nghymru lle mae'r Torgoch yn byw. Edrychwch yn ôl dros y llyn i weld adfeilion Castell Dolbadarn a godwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg.

**3** Croeswch y bont dros y rheilffordd. Agorwyd y rheilffordd yn 1843 i symud llechi o Chwarel Dinorwig i borthladd y *Felinheli* ar Afon Menai. Oddi yno, caent eu cludo i Lerpwl a'u hallforio i bedwar ban byd.

**4** Mae'r grisiau pren yn arwain at Ysbyty Chwarel Dinorwig. Agorwyd yr ysbyty yn 1860 i ofalu am weithwyr y chwarel. Amgueddfa ydyw erbyn hyn. Cadwch i'r chwith wrth yr ysbyty i fynd i mewn i'r coed.

**5** Gellir gweld copa'r *Wyddfa* oddi yma ar ddiwrnod clir. Mae'r llwybr ar y chwith yn arwain at adfeilion hen felin wlân a thai gweithwyr. Fodd bynnag, does dim cyfeirbwyntiau arno ac nid yw'n cael ei gynnal.

**6** Cafodd yr hen felin wlân ei throi'n ffatri lechi. Roedd yn cynhyrchu llechi ysgrifennu a phensiliau llechfaen i ysgolion.

**7** Mae'r ddau lwybr yn arwain at giât fochyn wedi'i gwneud o bren. Croeswch *afon Fachwen*. Mae hen chwareli wrth ochr y llwybr felly byddwch yn ofalus. Byddai'r llechfaen yn cael ei gario i lawr yr inclên at y rheilffordd. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr. Pan gyrhaeddwch Heol y Fach-wen, trowch i'r chwith.

**8** Mae'r llwybr ar y dde'n arwain at *Graig y Llew*, sy'n lle poblogaidd gan ddringwyr dibrofiad.

**9** Croeswch y bont ym *Mhenllyn*. Mae'r olygfa banoramig ar y chwith yn dangos siâp a ffurf y dyffryn. Cafodd y dirwedd ei ffurfio gan rewlif enfawr filoedd o flynyddoedd yn ôl.

**10** Dilynwch yr hen ffordd i'r chwith ac ymuno â llwybr beicio *Lôn Las Peris*. *Craig yr Undeb* yw'r graig ger y ffordd. O 1874 ymlaen, bu'n fan cyfarfod i Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru. Mae plac yno yn nodi mai yma y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Undeb.

**11** Pan ddaw'r hen ffordd i ben, ewch trwy'r gatiau. Dilynwch y llwybr i'r dde a chroesi'r briffordd ar y groesfan. Ailymunwch â llwybr beicio *Lôn Las Peris* sy'n mynd trwy hen dwnnel y rheilffordd o dan y briffordd.

**12** Dilynwch y llwybr heibio i *Lyn Tan Y Pant*. Codwyd y sarn gan y cwmni rheilffordd. Roedd yn gwahanu'r rhan hon o'r llyn oddi wrth y prif lyn. Mae'r fan hon yn fwy cysgodol na'r prif lyn ac felly mae planhigion ac anifeiliaid yn ffynnu yno.

**13** Pasiwch ardal hamdden y *Glyn* ar y chwith i gyrraedd y briffordd. Cafodd yr ardal hamdden hon ei chreu trwy dipio gwastraff o chwarel *Glyn Rhonwy* ar y llethrau uwchlaw i mewn i'r llyn.

**14** Pasiwch Faes Parcio'r Pentref. Ewch ymlaen i'r ardal hamdden ar lan y llyn. Croeswch y bompren i Faes Parcio Ger y Llyn. Dilynwch yr arwyddion cyfeirio i'r chwith ac yna i mewn i'r cae. Dilynwch y llwybr ar lan y llyn trwy *Gae'r Ddôl* at y brif bompren dros *Afon y Bala*. Croeswch y bont a throi i'r chwith i gyrraedd pen y llwybr ym maes parcio *Gilfach Ddu*.

**Economi a Chymuned** | Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4TY | Ffôn: 01286 870892 | Ebost: parcgwledigpadarn@gwynedd.llyw.cymru | www.gwynedd.llyw.cymru | www.llechi.cymru